

10 MILIWN O RESYMAU DROS GYMRYD ARTHRITIS O DDIFRIF

Maniffesto Etholiad Cyffredinol 2024



**VERSUS
ARTHRITIS**

YNGLŶN Â VERSUS ARTHRITIS

Am gyfnod rhy hir, mae arthritis wedi cael ei ddiystyru a'i anwybyddu. Gyda'n gilydd, gallwn newid hynny.

Versus Arthritis yw elusen arthritis fwyaf y DU. Rydym yn ymgyrchwyr, yn ofalwyr, yn ymchwilyr, yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol, yn ffrindiau, yn rhieni, yn godwyr arian ac yn wirfoddolwyr, ac rydym i gyd yn unedig yn ein huchelgais i sicrhau, ryw ddydd, na fydd yn rhaid i neb fyw gyda'r boen, y blinder a'r unigedd a achosir gan arthritis.

Mae arthritis yn set o gyflyrau difrifol sy'n effeithio ar fywydau dros 10 miliwn o bobl yn y DU. Gall effeithio ar allu person i weithio, gofalu am deulu neu fyw'n dda. Ni ddylai pobl sydd mewn swyddi o bŵer ddiystyru arthritis.

Rydym yn gweithio gydag arbenigwyr, llunwyr polisi, a phobl ag arthritis, ac rydym yn deall beth sydd angen ei newid a sut, fel bod pawb sy'n byw gydag arthritis yn cael mynediad at y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i fyw'r bywydau y maent yn eu dewis.

Mae Etholiad Cyffredinol yn gyfle pwysig i'n cymuned – mae'n amser i ddod at ein gilydd a mynnu bod Llywodraeth nesaf y DU yn gwneud arthritis yn flaenoriaeth.



EIN 5 BLAENORIAETH



Sicrhau bod arthritis yn flaenoriaeth
mewn cynlluniau iechyd cenedlaethol,
gan gynnwys data gwell

Lleihau amseroedd aros ar gyfer pobl
sydd ag arthritis a'u cefnogi tra'u bod
yn aros

Cynyddu cyllid i ymchwil cyhyrsgerby-
dol i adlewyrchu ei effaith ddifrifol

Gwella cymorth cysylltiedig â gwaith i bobl
sydd ag arthritis

Cryfhau gofal a chymorth i blant a phobl
ifanc sydd ag arthritis





DEBORAH ALSINA

Prif Weithredwr Versus Arthritis

Mae dros 10 miliwn o bobl yn y DU yn dioddef o arthritis. Mae hynny'n fwy na 15,000 o bobl ar gyfartaledd ym mhob etholaeth a allai fod yn byw gyda phoen sylweddol, blinder a llai o symudedd. Gall y rhain gael eu hachosi gan arthritis, gan effeithio ar eu gallu i gysgu, teithio, cymdeithasu a mwynhau bywyd fel y dymunant. Mae llawer mwy o bobl yn byw gydag arthritis ond yn dal heb gael diagnosis neu'n aros yn llawer rhy hir am ddiagnosis.

Mae oedi ar draws y DU i gael mynediad at driniaeth a chymorth sy'n newid bywydau, fel llawdriniaeth i osod cymalau newydd, yn gadael gormod o bobl ag arthritis yn aros blynyddoedd mewn poen. Mae'n annerbyniol y dylid gorfodi unrhyw un i fyw gyda'r effaith ddinistriol y gall hyn ei chael ar eu hiechyd meddwl, eu cyllid a'u perthnasoedd.

Gall arthritis hefyd gael effaith sylweddol ar allu pobl i weithio. Heb y cymorth cyflogaeth cywir, mae pobl yn ei chael hi'n anodd aros mewn gwaith ac mewn perygl o orfod ymddeol yn gynnar. Ac er gwaethaf canfyddiad y cyhoedd, mae arthritis yn effeithio ar bobl o bob oed, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Yn rhy aml, cânt eu gadael heb gefnogaeth yn yr ysgol a gallant ei chael yn anodd cymryd rhan mewn gweithgareddau bob dydd.

Dros y blynyddoedd, mae Versus Arthritis wedi bod yn arloeswr mewn ymchwil feddygol i gyflyrau cyhyrsgerbydol fel arthritis, ond nid yw buddsoddiad ymchwil y Llywodraeth ei hun yn y maes hwn wedi parhau i gynyddu yn unol â'i effaith gynyddol. Mae ein cymuned yn cael ei gadael ar ôl.

RHAID GWNEUD ARTHRITIS YN FLAENORIAETH GENEDLAETHOL.

Am gyfnod rhy hir, nid yw arthritis wedi'i gymryd o ddifrif. Ni all hyn barhau. Ni all pobl sydd ag arthritis barhau i fyw heb y cymorth a'r gofal cywir sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau iach a hapus.

Mae angen i ni gydnabod arthritis a'r effaith y mae'n ei chael ar fywydau pobl. Mae arnom angen arweiniad cenedlaethol a lleol parhaol ar gyfer iechyd cyhyrsgerbydol, a rhaid cynnwys arthritis mewn cynlluniau iechyd. Rhaid gwneud mwy i sicrhau gwelliant parhaus yn y gofal, y driniaeth a'r cymorth i bobl o bob oed sy'n byw ag arthritis.

RYDYM ANGEN NEWID NAWR.

Ar gyfer Etholiad Cyffredinol y DU, rydym am ddweud wrth wleidyddion na ddylid anghofio pobl sydd ag arthritis. Mae angen i Lywodraeth nesaf y DU ymrwymo lefelau priodol o gyllid i fynd i'r afael â'r ôl-groniad yn y GIG. Mae arnom angen arloesi mewn gwasanaethau iechyd sy'n trawsnewid triniaeth a gofal, gydag arweinyddiaeth glinigol benodol i'w gyflawni. Mae angen buddsoddiad ychwanegol arnom mewn ymchwil sy'n newid bywydau i ddod o hyd i driniaethau'r dyfodol, ac mae angen y cymorth cywir arnom i'r rheini sydd mewn addysg neu yn y gwaith i sicrhau y gallant ffynnu heddiw.

Yn anad dim, mae angen inni wrando ar y 10 miliwn o bobl sydd ag arthritis a'u teuluoedd fel bod ein cymuned yn cael ei chymryd o ddifrif unwaith ac am byth.

Rydym yn annog y Llywodraeth nesaf i wneud arthritis yn flaenoriaeth genedlaethol.

Deborah Alsina MBE

SICRHAU BOD ARTHRITIS YN FLAENORIAETH MEWN CYNLLUNIAU IECHYD CENEDLAETHOL GAN GYNNWYS DATA GWELL

Y BROBLEM

Nid yw arthritis yn cael ei flaenoriaethu - nid yw cynlluniau iechyd ym mhob un o'r cenedloedd yn cydnabod cyffredinolrwydd, costau ac effaith enfawr arthritis.

1 O BOB 6

Nifer y bobl yn y DU sydd ag arthritis



Mae un o bob chwech ohonom - dros 10 miliwn o bobl yn y DU - yn byw gyda'r boen, y blinder a'r anabledd sylweddol y gall arthritis ei achosi. Gyda'i gilydd, bydd costau gofal iechyd arthritis yn cyrraedd swm enfawr o £118.6 biliwn dros y degawd nesaf. Er gwaethaf hyn, nid yw arthritis yn cael ei gymryd o ddifrif.

Mae arthritis yn aml yn cael ei ddiystyru'n anghywir fel rhan anochel o heneiddio, nid yw cyllid iechyd yn gymesur â'r broblem; gall gymryd llawer rhy hir i gael diagnosis; ac nid oes gennym ddata o ansawdd da ar arthritis ac iechyd cyhyrsgerbydol (MSK). Rhaid i hyn newid – mae angen cymryd arthritis o ddifrif fel bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Blaenoriaethu mewn cynlluniau cenedlaethol yw'r cam cyntaf.

COSTAU CYNYDDOL CYFLYRAU MSK YN LLOEGR

£4.7BN
2013-14

£5.5BN
2019-20

£6.3BN
2022-23

Cyflyrau MSK oedd yn gyfrifol am y trydydd maes gwariant mwyaf ar raglenni'r GIG, sef £4.7 biliwn yn 2013-14. Roedd hyn yn 3.5% o'r holl wariant yn 2013-14. Os yw'r gyfran wedi aros yr un fath – bydd cyflyrau MSK wedi cyfrif am wariant o £5.5 biliwn yn 2019-20 ac amcangyfrif o £6.3 biliwn yn 2022-2023.



STORI PIPPA

“Dechreuais gael problemau gyda fy mhen-glin pan oeddwn yn un ar bymtheg oed, a chefais fy llawdriniaeth gyntaf ar fy mhen-glin yn ddeunaw. Mae pobl wedi dweud popeth o dim ond ‘traul a gwisgo’ i ‘llid a difrod ydyw’ i ‘wrth gwrs ei fod yn arthritis!’. Nid oes iaith na chymorth cyson, ac mae bod heb ddiagnosis cywir ar ôl yr holl flynyddoedd hyn yn adlewyrchiad gwael iawn ar weithwyr meddygol proffesiynol.

Maen nhw'n dweud wrtha i am fynd i'r ffisio ac yna dweud cario 'mlaen. Dyma fy seithfed tro i mi hunan-gyfeirio at ffisio. Mae gen i rywbeth sy'n hirdymor ac mae ond yn mynd i waethygu, ond does neb yn checio arnaf os nad ydw i'n cysylltu â nhw. Nid yw'n teimlo fel eich bod chi'n flaenoriaeth, ac mae hynny'n anodd iawn.”

Pippa, 36


BETH SY'N RHAID I'R LLYWODRAETH NESAF EI WNEUD:

- Blaenoriaethu arthritis yn genedlaethol trwy arweiniad GIG parhaol ac mewn cynlluniau iechyd.
- Sicrhau arweinyddiaeth glinigol MSK ym mhob system iechyd leol a sicrhau bod pobl sydd ag arthritis yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau lleol.
- Gwella ansawdd, argaeledd a defnydd data ar draws y DU ar arthritis ac iechyd MSK.


LLEIHAU AMSEROEDD AROS AR GYFER POBL SYDD AG ARTHRITIS A'U CEFNOGI TRA BYDDANT YN AROS

Y BROBLEM

Mae dros filiwn o achosion iechyd yn y DU yn aros am driniaeth trawma ac orthopedig. Mae hyn yn annerbyniol. Mae angen cymryd camau brys i fynd i'r afael â'r arosiadau hir hyn.



Y ganran a ddywedodd fod eu lefelau poen wedi gwaethgu wrth aros am lawdriniaeth



Y ganran a nododd ddirywiad yn eu hiechyd meddwl wrth aros am lawdriniaeth

Mae gormod o bobl ag arthritris ar draws y DU yn aros yn llawer rhy hir i gael diagnosis neu i gael mynediad at y driniaeth y maent mewn angen dirfawr amdani.

Yn ystod cyfnodau o bwysau cynyddol ar y GIG, mae gofal sydd wedi'i gynllunio fel llawdriniaeth i osod clun a phen-glin newydd yn cael ei ganslo yn gyntaf, gan arwain at arosiadau hyd yn oed yn hwy am driniaeth. Mae oedi o'r fath yn effeithio'n sylweddol ar iechyd corfforol a meddyliol pobl, gan effeithio ar bob agwedd ar fywyd bob dydd. Mae angen i hyn newid ar frys.

Mae cymorth a gofal rhagorol gyda chyfathrebu clir yn hanfodol ar gyfer iechyd a lles pobl yn ogystal â sicrhau canlyniadau gwell. Mae Versus Arthritis wedi creu pecyn cymorth sy'n cynnwys gwell cyfathrebu, rhaglenni gweithgaredd corfforol a chynngor lles. Mae angen inni weld systemau iechyd lleol yn gwella'r defnydd o'r adnoddau hyn er mwyn cefnogi pobl yn well wrth iddynt aros.

Cynnydd yn nifer yr achosion iechyd ledled y DU sy'n aros am driniaeth trawma ac orthopedig

683,565 |
1,101,063

CYNNYDD O
61% ↑
rhwng Rhagfyr 2019 a Rhagfyr 2023



STORI ROBERTA

"Cefais fy rhoi ar restr aros am glun newydd ym mis Tachwedd 2022, a chefais fy llawdriniaeth yn gynnar yn 2024. Am dros flwyddyn, roedd popeth yn heriol: codi, coginio, mynd i'r tŷ bach, tynnu dillad allan. Roeddwn i'n gallu cerdded llathen neu ddwy gyda ffon, ond roedd hi mor boenus - roedd fy mywyd wedi'i seibio ac roedd hynny'n ddigalon iawn. Ni chawsom gynnig unrhyw gefnogaeth, felly roedd yn rhaid i fy mhartner wneud popeth, ac roedd hynny mor galed arno. Mae cael fy llawdriniaeth yn teimlo fel bod pwysau enfawr wedi'i godi oddi ar ein hysgwyddau. Ond mae'r amser hir o weithio i gyrraedd yma yn golygu nad yw fy adferiad ar ôl llawdriniaeth mor gyflym ag y gallai fod wedi bod, ac mae'r newid yn fy cerddediad o fod mewn poen cyhyd yn achosi problemau mewn manau eraill. Dwi eisiau cael fy mywyd yn ôl."

Roberta, 75

BETH SY'N RHAID I'R LLYWODRAETH NESAF EI WNEUD:

- Cyhoeddi cynllun hirdymor cynhwysfawr i leihau amseroedd aros, gan gynnwys gwella ansawdd y data a gyhoeddir.
- Lleihau amseroedd aros trwy ddiogelu capasiti orthopedig trwy gadw staff, adnoddau a chyfleusterau penodol, gan ddefnyddio cynlluniau fel canolfannau llawfeddygol.
- Gwella cyfathrebu a chefnogaeth i bobl ag arthritris i'w helpu i aros cystal ag y gallant tra byddant yn aros am driniaeth.

CYNYDDU'R CYLLID I YMCHWIL CYHYRYSGERBYDOL I ADLEWYRCHU EI EFFAITH DDIFRIFOL

Y BROBLEM

Yn syfrdanol, mae arthritis a chyflyrau MSK yn cyfrif am 10.5% o effaith anabledd y DU ond mae cyfran cyllid ymchwil y Llywodraeth i gyflyrau MSK yn cyfrif am ffracsiwn o hynny.

21%


Canran y blynyddoedd o fyw gydag anabledd (YLDs) yn y DU sy'n cael eu cyfrif gan gyflyrau MSK

Gall ymchwil gael effaith newid bywyd ar bobl sydd â chyflyrau cyhyrsgerberbydol (MSK) fel arthritis.

Arweiniodd ymchwil a ariannwyd gan Versus Arthritis at greu meddyginiaethau gwrth-TNF a drawsnewidiodd driniaeth arthritis llidiol a newidiodd fywydau bron i ddwy filiwn o bobl ledled y byd. Rydyn ni eisiau mwy o ddarganfyddiadau arloesol yn y labordy, y clinig, a'r gymuned i sicrhau bod pobl sydd ag arthritis yn gallu cael mynediad at y triniaethau sydd eu hangen arnyn nhw.

Er ein bod yn cydnabod bod y Llywodraeth ar hyn o bryd yn ariannu £69 miliwn o ymchwil i gyflyrau MSK, yn anffodus nid yw'n adlewyrchu effaith fesuradwy'r cyflwr, felly mae'n hanfodol cynyddu'r buddsoddiad hwn yn sylweddol. Mae hefyd angen gwell hyrwyddiad a chefnogaeth barhaus ar gyfer yr amgylchedd ymchwil yn y GIG a phrifysgolion. Nid rhywbeth ychwanegol dewisol yw ymchwil – mae'n gwbl hanfodol rhoi'r canlyniadau gorau posibl i bobl.

BWLCH YNG NGWARIANT YMCHWIL LLYWODRAETH Y DU AR GYFLYRAU MSK



STORI DR DAVID

"Mae fy labordy yn canolbwyntio ar osteoarthritis - clefyd a ddisgrifir yn aml fel 'traul a gwisgo'. Mewn gwirionedd, mae'r cartilag sy'n amddiffyn pennau ein hesgyrn yn cael ei ddinistrio mewn proses actif, wedi'i gyrru gan ensymau sy'n gweithredu fel 'siswrn moleciwlaidd'. Rydyn ni'n gweithio i ddeall yr ensymau hyn a sut allwn ni eu hatal. Rydym yn un yn unig o lawer o grwpiau ymchwil arthritis ar draws y wlad sy'n gweithio ar bob cam - o wyddoniaeth darganfod i dreialon clinigol. Mae ymchwil cyhyrsgerberbydol yn dibynnu'n fawr ar gyllid gan elusennau gwych fel Versus Arthritis. Byddai hwb sylweddol mewn ymchwil arthritis gan y Llywodraeth yn helpu i ddatgloi potensial sector gwyddorau bywyd sy'n arwain y byd yn y DU, gan chwilio am y datblygiad nesaf ar gyfer y clefydau gwanychol hyn."

*Dr David Wilkinson
Biocemegydd Protein | Prifysgol Lerpwl*


BETH SY'N RHAID I'R LLYWODRAETH NESAF EI WNEUD:

- Cynyddu cyllid ymchwil MSK o leiaf £114 miliwn i £183 miliwn y flwyddyn i adlewyrchu ei effaith sylweddol ar boblogaeth y DU.
- Cymell ymchwil elusennol mewn prifysgolion a'r GIG trwy gymorth ariannol priodol.
- Cryfhau dilyniant ar gyfer Academyddion Clinigol – ymchwilwyr y dyfodol. Cymell a hwyluso'r llwybr gyrfa hwn i gynnal safle'r DU fel arweinydd byd-eang mewn ymchwil.

GWELLA CYMORTH YN Y GWEITHLE I BOBL SYDD AG ARTHRITIS

Y BROBLEM

Mae gormod o bobl ag arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol yn methu â gweithio pan fyddant yn dymuno. Dyma un o'r prif resymau (21%) a roddwyd am anweithgarwch economaidd a achosir gan iechyd gwael.



Mae arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol (MSK) yn cael effaith ddifrifol ar yr economi, gan arwain at golli 23.4 miliwn o ddiwrnodau gwaith yn 2022. Amcangyfrifwyd y byddai cost y diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd osteoarthritis ac arthritis gwynegol yn £2.58 biliwn yn 2017, a disgwylir i hyn godi i £3.43 biliwn erbyn 2030.

Mae pobl sydd ag arthritis hyd at 20% yn llai tebygol o fod mewn gwaith na'r rhai heb y cyflwr. Mae rhaglenni cymorth cyflogaeth fel iechyd galwedigaethol a Mynediad at Waith yn adnodd hanfodol ar gyfer pobl ag arthritis a chyflyrau MSK ond mae angen gwella'n sylweddol faint sy'n manteisio arnynt. Mae llawer o bobl yn aros yn llawer rhy hir am y cymorth sydd ei angen arnynt, gydag amseroedd aros ar gyfer Mynediad at Waith yn treblu rhwng mis Mawrth 2021 a 2022. Mae'n hollbwysig bod pobl ag arthritis yn cael y cymorth hanfodol i allu mynd i gyflogaeth a ffynnu yn y gwaith.

CANRAN Y RHAI SY'N ECONOMAIDD ANWEITHGAR

34.9%

Canran y bobl sydd â chyflwr MSK

15.2%

Canran y bobl heb gyflwr hirdymor



STORI KEN

"Rwy'n gwybod nad yw bod yn nyrs wedi helpu fy nghyflwr – a dweud y gwir, mae'n debyg ei fod wedi gwaethygu. Mae cymaint o staff y GIG yn cael rhyw fath o gyflwr cyhyrysgerbydol oherwydd pa mor galed yn gorfforol yw'r swydd, ond nid oes unrhyw gefnogaeth briodol i ni. Rwy'n gweithio fel nyrs banc nawr, felly dim ond cymaint o ddyddiau ag y teimlaf y gallaf weithio, ond hyd yn oed wedyn, mae'n anodd. Rwyf wedi siarad â fy rheolwyr i geisio darganfod ffordd o leihau'r llwyth gwaith a'i wneud yn haws, ond nid oes dim wedi dod ohono. Rwyf hyd yn oed wedi cael asesiadau ergonomig, ond anwybyddwyd yr argymhellion. Rydyn ni'n haeddu gwell cefnogaeth na hyn."

Ken, 64

BETH SY'N RHAI I'R LLYWODRAETH NESAF EI WNEUD:

- Cefnogi mwy o bobl sydd ag arthritis a chyflyrau MSK i ddechrau gweithio ac aros i weithio, trwy gynyddu mynediad at iechyd galwedigaethol a gwella mynediad amserol at raglenni cymorth cyflogaeth.
- Hyrwyddo a gwella ymwybyddiaeth o'r rhaglen Mynediad at Waith trwy ymgyrch wedi'i thargedu, gan dynnu sylw at sut y gall gefnogi pobl sydd ag arthritis a chyflyrau MSK.
- Gwranddo a dysgu oddi wrth bobl sydd ag arthritis wrth ddatblygu mentrau cyflogaeth gyda'r nod o'u cefnogi i aros yn y gwaith neu ddychwelyd i'r gwaith.

CRYFHAU GOFAL A CHYMORTH I BLANT A PHOBL IFANC SYDD AG ARTHRITIS

Y BROBLEM

Nid yw plant a phobl ifanc sydd ag arthrits yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i reoli eu cyflwr neu fyw bywydau iach a hapus.

Amcangyfrifir bod gan

10,000

o blant dan 16 oed JIA yn y DU.

Amcangyfrifir bod gan 10,000 o blant o dan 16 oed yn y DU Arthritis Idiopathig Ieuencid (JIA), grŵp o gyflyrau llidiol lle arthrits yw'r prif symptom.

Mae JIA yn achosi poen yn y cymalau a chwyddo, colli symudedd neu ddehurwydd, a gall achosi blinder eithafol mewn plant, sy'n cael effaith ddifrifol arnynt nhw a'u teuluoedd. Gall hefyd effeithio ar iechyd meddwl a lles.

Mae angen diagnosis cynnar ac atgyfeirio ar blant a phobl ifanc sydd â JIA am driniaeth i atal niwed hirdymor i gymalau, poen ac anabledd. Mae angen cymorth wedi'i deilwra arnynt wrth drosglwyddo i wasanaethau gofal iechyd i oedolion a deunyddiau sy'n briodol i'w datblygiad mewn lleoliadau iechyd ac yn yr ysgol. Gall cefnogaeth neu gyfeirio ar gyfer anawsterau iechyd meddwl cysylltiedig fod yn hollbwysig hefyd.

CANFU ASTUDIAETH O BOBL IFANC SYDD AG ARTHRITIS FOD...

60%

angen cymorth iechyd meddwl, gydag anawsterau sylweddol o ran cael mynediad at y gofal yr oedd ei angen arnynt.



STORI SFIYAH

"Mae fy JIA yn effeithio llawer arnaf. Mae'n fy atal rhag gwneud llawer o bethau, fel chwarae yn yr iard yn yr ysgol. Ni allaf redeg o gwmpas cymaint oherwydd fy ngliniau. Mae'n rhoi llawer o bwysau arnynt. Weithiau dwi ddim yn teimlo fy mod yn cael fy nghynnwys. Mewn Addysg Gorfforol rydym yn chwarae pêl-droed neu rygbi ac ni allaf ymuno cymaint, mae'n brifo fy mhen-glin i gicio pêl. Alla i ddim gwneud y pethau rydw i eisiau eu gwneud."

Sfiyah, 10

"Roedd y broses o gael diagnosis yn anhygoel o anodd. Cymerodd gymaint o amser ac roedd yn teimlo nad oedd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gwranddo. Hoffem weld mwy o gefnogaeth mewn ysgolion. Mae Sfiyah yn mynd i'r ysgol uwchradd y flwyddyn nesaf ac rydym wedi'i chael hi'n anodd tynnu sylw at ei hanghenion. Dydw i ddim yn meddwl bod ysgolion yn deall. Mae stigma mawr bod arthrits yn rhywbeth y mae pobl hŷn yn ei gael. Rydyn ni angen mwy o ddealltwriaeth."




Parvina, mam Sfiyah

BETH SY'N RHAI I'R LLYWODRAETH NESAF EI WNEUD:

- Gwella cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc sydd ag arthrits a'u teuluoedd ac ehangu mynediad at y cymorth hwn.
- Galluogi ysgolion i weithredu ar gynlluniau cymorth unigol sy'n cael eu creu ar y cyd â phobl ifanc ag arthrits a'u teuluoedd.
- Gweithio gyda systemau iechyd i gyflwyno cynlluniau cymorth cynhwysfawr sydd wedi'u cyd-greu ar gyfer pob person ifanc sydd ag arthrits wrth drosglwyddo o wasanaethau gofal iechyd plant i wasanaethau oedolion.

DILYNWCH NI

I gael rhagor o wybodaeth ewch i:
www.versusarthritis.org

-  /VersusArthritis
-  @VersusArthritis
-  @VersusArthritis

Am unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r tîm
Polisi, Materion Cyhoeddus ac Ymgysylltu
yn: campaigns@versusarthritis.org

Swyddfa gofrestredig:

0300 790 0400

Copeman House, St Mary's Gate
Chesterfield, S41 7T

VERSUS ARTHRITIS

